Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Brynaerau
# Neuadd Bentref Clynnog
# Clynnogfawr
# Caernarfon
# LL54 5BT

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Brynaerau yn cyfarfod rhan amser yn neuadd bentref Clynnog Fawr, Gwynedd. Mae`n leoliad cyfrwng Cymraeg ac yn aelod o`r Mudiad Meithrin.

Mae`r lleolaid ar agor am dri bore`r wythnos yn ystod tymor yr ysgol (Llun – Mercher) rhwng 9.10 – 12.50 gan ddarparu ar gyfer plant rhwng dwy a hanner a phedair oed. Mae`r lleoliad wedi`i gofrestru i ddarparu gofal rhan amser ar gyfer uchafswm o 12 o blant. Adeg yr arolygiad, roedd wyth o blant ar y gofrestr, gyda thri yn dair oed ac yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth y Blynyddoedd Cynnar. Mae tri o blant eraill yn mynychu`r ysgol gynradd leol yn ran amser yn y prynhawn yn unig.

Mae pob plentyn yn dod o gartrefi sy`n siarad Cymraeg ac nid oes un plentyn wedi`i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol na datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae dau aelod o staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc. Mae`r ddau yn benodiadau diweddar a dim ond ers Tachwedd 2014 maen nhw wedi bod yn eu swydd.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn 2014 ac ym mis Ebrill 2008 gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd:

- ansawdd ardderchog y berthynas rhwng yr ymarferwyr a`r plant sy`n seiliedig ar hoffter a pharch;
- mae`r lleoliad yn gymuned ofalgar, cefnogol lle mae`r holl blant yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg;
- mae`r plant yn mwynhau dod i`r lleoliad, yn ymddwyn yn dda iawn ac yn dangos agweddau cyson dda tuag at ddysgu;
- mae trefniadau da ar waith i annog y plant i fod yn iach;
- mae`r profiadau dysgu yn dda ar y cyfan ac yn darparu`r plant â phrofiadau ysgogol; ac
- mae`r addysgu yn darparu`r plant â chydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r arweinydd a`r ymarferydd cefnogol yn gweithio`n dda fel tîm;
- mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol;
- mae`r arweinydd yn dangos synnwyr cryf o ddiben ac yn canolbwyntio`n dda ar wella`r ddarpariaeth ar gyfer y plant;
- mae`r ddau ymarferydd yn hunanarfarnol ac yn fodlon gweithredu newid;
- mae`r lleoliad yn cael ei gefnogi`n dda iawn gan y pwyllgor rheoli;
- mae`r lleoliad yn derbyn cefnogaeth werthfawr gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin; ac
- mae`n darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Gwella`r cynllunio ar gyfer profiadau dysgu`r plant.

A2 Ffurfioli`r gweithdrefnau hunanarfarnu a`r cynllunio ar gyfer gwella.

A3 Datblygu`r amgylchedd tu allan (lle`n bosib) i ddarparu amgylchedd gweithredol ar gyfer dysgu`r plant.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

**Safonau:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol

**Lles:**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r profiadau dysgu o ansawdd da yn gyffredinol. Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac mae`r gweithgareddau wedi'u cynllunio'n dda er mwyn galluogi`r plant i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Mae`r cynllunio`n fanwl ar draws pob maes dysgu ac yn darparu`r plant â gweithgareddau diddorol a heriol. Mae`r cynllunio yn darparu ar gyfer cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sydd wedi`u dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion ac mae cyfleoedd da yn cael eu darparu i`r plant wneud dewisiadau, i weithio`n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw`r profiadau dysgu bob amser yn cyfateb yn dda i allu`r plant a`u cyrhaeddiad blaenorol.

Mae`r plant yn profi cyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol. Maen nhw`n dangos goddefgarwch a pharch tuag at ei gilydd ac yn gweithio gyda'i gilydd yn hapus. Mae gan bob plentyn yr hyder i ymgymryd â phrofiadau newydd ac yn barod i drafod yr hyn y maen nhw`n ei wneud. Maen nhw`n dangos sgiliau creadigol da fel wrth ddefnyddio paent, ac yn gwybod bod rhaid trin pethau byw yn ofalus.

Mae'r lleoliad yn darparu`r plant â chyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd. Mae`r sesiynau dyddiol wedi'u cynllunio'n dda er mwyn darparu amrywiaeth o weithgareddau. Mae'r sesiynau cofrestru yn rhoi cyfle priodol i`r plant i eistedd, gwrando ac ymateb. Mae pob plentyn yn arddangos medrau gwrando rhagorol ac mae pob plentyn yn siaradwyr hyderus. Mae cyfleoedd rheolaidd i blant i wrando ar storïau, ateb cwestiynau ac i ganu rhigymau a chaneuon. Mae pob plentyn yn cael eu hannog i ddefnyddio eu hiaith fathemategol yn eu chwarae ac mewn gweithgareddau ffocws. Mae cyfleoedd priodol yn cael eu darparu i`r plant ddatblygu eu sgiliau TGCh yn effeithiol. Mae sgiliau creadigol y

plant yn cael eu datblygu drwy beintio lle maen nhw`n dewis ac yn cymysgu lliwiau, ac mae eu sgiliau corfforol yn cael eu datblygu trwy weithgareddau symud i gerddoriaeth.

Mae pob plentyn yn siarad Cymraeg yn rhugl, ac yn cael cyfleoedd da iawn i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Santes Dwynwen. Mae`r plant yn cael cyfleoedd i ymweld â'r ardal gan gynnwys yr eglwys leol ac mae ymweliadau o`r fath ac ymwelwyr yn cyfoethogi dysgu`r plant.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ac yn seiliedig ar hoffter a pharch. Mae`r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn rhoi sail gadarn i ddarparu'r plant â phofiadau dysgu ysgogol. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ac yn ymwybodol iawn o'u hanghenion a'u gofynion. Mae`r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol. Mae`r plant yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mewn modd cyson. Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu effeithiol.

Mae`r sesiynau yn symud ymlaen ar gyflymder da ac er bod sesiwn y bore yn hir, mae`r ymarferwyr yn sensitif i anghenion y plant ac yn darparu amrywiaeth ddigonol o weithgareddau i gynnal diddordeb y plant. Mae'r staff yn fodelau rôl da o ran iaith, a thrwy holi sensitif, mae`r plant yn datblygu geirfa gyfoethog ac amrywiol.

Mae`r plant yn cael eu hasesu`n rheolaidd ac mae`r canlyniadau`n cael eu cofnodi mewn llyfryn personol. Mae'r llyfrynnau hyn yn darparu cofnod defnyddiol o gyflawniad pob plentyn ac yn gofnod da o gynnydd plant. Ar hyn o bryd, mae`r staff yn ychwanegu at y cofnodion bob dydd.

Mae`r llyfrau cofnodion asesu sydd wedi`u cyflwyno`n ddiweddar yn ffocysu'n dda ar gofnodi cyflawniad plant. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid oes defnydd digonol yn cael ei wneud o`r asesu wrth gynllunio er mwyn diwallu anghenion plant unigol. Mae`r rhieni`n cael eu hysbysu'n dda am gynnydd eu plant drwy gofnodion anffurfiol a ffurfiol o gyflawniad.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r trefniadau i sicrhau gofal, cymorth ac arweiniad y plant yn dda ac yn cael effaith dda ar safonau cyflawniad a lles y plant. Mae`r ymarferwyr yn annog y plant i ffurfio perthynas gadarnhaol gyda'u cydweithwyr ac mae gweithgareddau dyddiol y lleoliad yn hyrwyddo ymdeimlad o barch a goddefgarwch tuag at eraill yn effeithiol.

Mae`r trefniadau sefydlu a`r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni yn sicrhau bod y plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at eu datblygiad emosiynol a chymdeithasol. Mae`r plant yn ymwybodol iawn o rai o'r pethau y maen nhw`n ei wneud i gadw'n iach, gan gynnwys bwyta ffrwythau, cadw'n lân drwy olchi eu dwylo a gwneud ymarfer corff.

Mae`r gweithgareddau dyddiol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn gadarnhaol. Mae'r lleoliad yn meithrin

gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus ac yn helpu`r plant i wahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir. Mae pob plentyn yn cymryd cyfrifoldeb, yn dangos goddefgarwch a gwneud ffrindiau. Maen nhw wedi sefydlu sgiliau ymddygiad da ac yn dangos hunanddisgyblaeth. Mae'r lleoliad yn dathlu traddodiadau ac arferion Cymreig.

Mae`r plant yn dysgu am eu hardal drwy ymweliadau. Mae ymwelwyr, fel ffermwr lleol yn dod ag anifeiliaid ifanc i mewn i'r lleoliad yn galluogi`r plant i ddeall bod angen gofalu am anifeiliaid ifanc. Mae astudiaethau`r amgylchedd lleol yn galluogi`r plant i ddechrau deall sut i ofalu am yr amgylchedd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae`r ymarferwyr yn deall y gweithdrefnau ar gyfer delio â materion diogelu ac yn cymryd gofal i sicrhau diogelwch yr adeilad a'r tu allan.

Nid oes unrhyw blentyn wedi'i nodi ag anghenion dysgu ychwanegol ond mae trefniadau addas ar waith petai'r angen yn codi.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned groesawgar, gofalgar a chefnogol. Mae'r awyrgylch cartrefol yn darparu amgylchedd dysgu rhagorol ar gyfer y plant ac maen nhw`n ymgartrefu'n gyflym i'r ystod eang o brofiadau sy`n cael eu darparu ar eu cyfer. Mae pob plentyn yn cael eu parchu fel unigolion a'u cefnogi'n dda. Mae gan bawb hawl gyfartal i'r holl weithgareddau. Mae`r ymarferwyr yn annog y plant i barchu ei gilydd ac i ddathlu llwyddiant ei gilydd.

Mae gan y lleoliad adnoddau o ansawdd da ym mwyafrif y meysydd sydd wedi'u cyfateb yn dda i anghenion plant. Mae rhai ardaloedd, fel mathemateg, wedi eu nodi fel rhai sydd angen adnoddau dysgu ychwanegol.

Mae'r staff yn brofiadol gyda`r cymhwysterau priodol i gyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae arddangosfeydd o waith y plant yn gwella'r amgylchedd dysgu, ond yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau sy`n cael eu gosod gan y defnydd o'r neuadd gan sefydliadau eraill.

Mae'r adeilad a'r ystafelloedd yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r ardaloedd tu allan yn gymharol fach ac yn cynnig cyfleoedd cyfyngedig ar hyn o bryd. Mae'n ardal ddiogel.

Mae`r ymarferwyr yn gwneud yn iawn am y diffyg cyfleusterau digonol tu allan trwy ddefnydd o'r gymuned i wella`r ddarpariaeth gwricwlaidd. Mae`r plant, er enghraifft, yn ymweld â'r eglwys leol ac yn elwa o ymweliadau ac ymwelwyr o'r gymuned.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad fel amgylchedd cartrefol, gofalgar lle mae`r plant yn profi ystod dda o brofiadau, yn hapus ac yn awyddus i ddysgu. Mae'r weledigaeth yn cael ei rhannu. Maen nhw`n hunanarfarnol ac yn dangos parodrwydd i weithredu newid.

Ers ei phenodiad mae`r arweinydd wedi dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu`r lleoliad ac wedi gweithio'n galed i wella'r ddarpariaeth, gan gynnwys ad-drefnu`r meysydd gweithgarwch, er enghraifft, mae`r ardal ddarllen bellach yn darparu man cyfforddus ar gyfer plant eistedd ac edrych ar lyfrau ac mae`r plant yn ymateb yn gadarnhaol . Yn gyffredinol, mae`r ymarferwyr yn sicrhau amgylchedd diddorol tu fewn sydd wedi`i gyfoethogi gan arddangosfeydd deniadol o waith y plant.

Mae'r arweinydd yn arfarnol o'r ddarpariaeth sy`n cael ei darparu a'r effaith mae hyn yn ei chael ar ddysgu plant. Er enghraifft, mae cynnydd plant yn cael ei werthuso'n rheolaidd ac mae'r canlyniadau`n cael eu rhoi i'r rhieni yn y llyfrynnau diwedd blwyddyn.

Mae'r ddau ymarferydd yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm. Mae'r ddau ohonynt yn awyddus ac yn barod i addasu i ffyrdd newydd o weithio.

Mae'r lleoliad yn mwynhau cefnogaeth werthfawr iawn gan y pwyllgor rheoli. Mae'r pwyllgor yn weithgar wrth sicrhau sefydlogrwydd ariannol ac yn wybodus o waith y lleoliad.

Mae'r lleoliad yn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a`r awdurdod lleol gan gynnwys datblygu llythrennedd y plant a mentrau bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r broses hunanarfarnu yn y lleoliad yn datblygu'n raddol. Ers eu hapwyntiadau, mae`r ymarferwyr wedi datblygu dealltwriaeth dda o allu, diddordebau ac anghenion y plant. Yn y cyfnod hwn, mae'r arweinydd wedi nodi`r hyn y mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddo ei wneud i wella. Fodd bynnag, mae`r cynllunio ar gyfer gwella mewn cyfnod cynnar o ddatblygiad ac nid yw`n canolbwyntio'n ddigonol ar flaenoriaethau, beth sydd angen ei wneud a sut y caiff canlyniadau eu hasesu.

Nid yw`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu monitro'n ddigonol ac nid yw gofynion staff, o ran gofynion hyfforddi, wedi cael eu nodi.

Drwyddi draw, nid yw'r lleoliad wedi nodi anghenion yn ddigonol, wedi targedu blaenoriaethu a sut i fynd i`r afael â nhw. Fodd bynnag, mae`r ymarferwyr yn dangos parodrwydd i chwilio am gymorth, i dderbyn cyngor ac i wella eu cymhwysedd proffesiynol, er mwyn rhoi`r ddarpariaeth addysgol orau posib i`r plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n dda gyda'i bartneriaid wrth gefnogi dysgu`r plant.

Mae`r bartneriaeth gyda rhieni yn effeithiol ac maen nhw, yn eu tro, yn gwerthfawrogi'r gofal a'r gefnogaeth sy`n cael eu dangos gan y staff ac yn falch o'r cynnydd y mae`r plant yn ei wneud. Mae'r lleoliad yn croesawu rhieni i'r lleoliad cyn i'w plant ddechrau ac i`w setlo i lawr bob bore. Mae cyfleoedd da i rieni gwrdd â'r staff ac i drafod materion sy'n peri pryder iddynt.

Mae`r cysylltiadau â swyddog cymorth yr Awdurdod Lleol a'r Mudiad Meithrin yn effeithiol iawn wrth wella'r ddarpariaeth addysgol. Mae`r ymarferwyr wedi elwa o bresenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd a thrwy gyngor sydd wedi`i ddarparu gan yr ymweliadau rheolaidd â'r lleoliad. Mae hyn wedi gwella cymhwysedd yr ymarferwyr yn sylweddol ac o ganlyniad wedi cael effaith bositif ar ansawdd cynllunio cwricwlwm y lleoliad.

Mae cysylltiadau da gyda'r ysgol gynradd leol, gan gynnwys ymweliadau cyn i`r plant drosglwyddo. Mae`r plant sy'n mynychu'r ysgol gynradd yn rhan amser yn mynychu'r lleoliad bob bore.

Mae'r plant yn ymweld â'r gymuned a'r eglwys leol ac mae hyn yn ymestyn eu gwybodaeth am eu cymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael gydag ymarferwyr sydd â cymwysterau da ac sy`n brofiadol. Maen nhw`n cael eu cefnogi'n dda gan staff ymgynghorol o'r Awdurdod Lleol, Mudiad Meithrin a'r Awdurdod Iechyd ac mae hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i gefnogi dysgu`r plant.

Mae`r rheolaeth ariannol yn cael ei wneud yn effeithlon ac mae hyn yn sicrhau bod digon o adnoddau o ansawdd da yn cael eu prynu yn seiliedig ar anghenion canfyddedig y plant.

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol lle mae`r plant yn derbyn gofal a chefnogaeth dda. Mae`r ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu a gwneud y defnydd perthnasol o hyfforddiant i wella eu cymhwysedd proffesiynol ac ansawdd y profiadau dysgu sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.

Mae'r arweinyddiaeth yn canolbwyntio`n dda ar ddarparu darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer y plant ac ar gynnal gwelliant. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |